

Cynilo

Incwm

Arian yw hwn a ddaw fel arian poced, anrhegion, cyflog neu log ar gynilion.

Gwariant

Dyma'r arian fyddwch chi'n ei wario, am bethau ydych eu hangen (e.e. Bwyd neu rent) neu bethau ydych eu heisiau (eitemau ychwanegol fel tocynnau sinema neu brydau bwyd mewn tai bwytia).

Beth yw cyllideb (budget)?

Dogfen yw hon sy'n cymharu eich incwm tebygol gyda'r hyn sy'n mynd allan - h.y. yr incwm mewn perthynas â'r gwariant. Gall cyllidebau fod yn rhai personol gan unigolion, yn gyllidebau teuluol, yn gyllidebau cwmni neu hyd yn oed yn gyllideb y llywodraeth.

Ceir dau fath o gofnod am y gyllideb

1. Cynllun sy'n dangos yr incwm a'r gwariant tebygol ar gyfer yr wythnos, mis, blwyddyn sydd i ddod - **rhagolwg** (forecast)
2. **Cofnod** ar y pryd o'r gwir incwm a'r gwir wariant.

Mae pobl yn defnyddio'r ddau fath yn aml. Byddant yn rhagfynegi, neu'n ceisio rhagweld faint fyddant yn ei ennill yn eu gwaith a faint sy'n debygol o gael ei wario, yna'n cofnodi faint yn union o gyflog a gafwyd a faint a gafodd ei wario. Mae'n ddefnyddiol cymharu'r ddau. Trwy wneud hynny, gallwch weld beth sydd angen ei newid yn y dyfodol er mwyn mantoli'r gyllideb (balance the budget).

Mantoli'r Gyllideb

Wrth fantoli'r gyllideb, rydych yn gofalu nad oes mwy o arian yn cael ei wario nag sy'n cael ei ennill ac yn gofalu na fyddwch yn mynd i ddyledion. Gall gwneud hyn helpu hefyd i weld a oes problemau ariannol yn debygol o godi yn y dyfodol.

Er mwyn cael mwy o arian ac osgoi dyledion gallwch naill ai:

Cynyddu eich incwm: dod o hyd i fwy o enillion (earnings) e.e. Cael gwaith ychwanegol, trafod y posibilrwydd o gael mwy o arian poced neu roi cynilion mewn cyfrif sy'n rhoi llogau uchel

Neu

Leihau eich gwariant - edrych ar y pethau sydd eu hangen arnoch i fyw (e.e. bwyd, lle i fyw) a'r pethau ydych eu heisiau ond y gellir byw hebddynt (e.e. teledu, y ffasiynau diweddaraf). Mae gallu rhoi pethau mewn trefn pwysigrwydd er mwyn gweld beth sydd ei wirioneddol angen arnoch, a beth y gallwch wneud hebddynt yn sgil bwysig dros ben. [Gweler Taflen Ffeithiau FB9 - Gair o Gyngor ynghylch cynilo].

Talen Manylion Cyllideb Greg Jones

Incwm

Cyflogau net y mis	£713.09
Arian o'r sêl garej	£170.40
Cyfanswm yr incwm:	£883.49

Gwariant

Rhent (rhanedig)	£285.00
Trafnidiaeth (tocyn trên a chostau tacsî)	£75.32
Bwyd, eitemau ystafell ymolchi eitemau cartref	£130.49
Dillad	£81.03
Bil ffôn symudol	£36.16
Bil nwy a thrydan (rhanedig)	£38.75
Treth cyngor a threthi dŵr (rhanedig)	£60.00
Adloniant (sinema, cyngerdd)	£65.22